

Organebau a'r Amgylchedd Newyddlen 2020

Rhestr o Gyrsiau

BSc

Ymddygiad Anifeiliaid
Bioleg a Newid Hinsawdd
Ecoleg
Bioleg y Môr a D r Croyw
Cadwraeth Bywyd Gwyllt
Swoleg
Gwyddorau Bywyd

MBiol

Swoleg
Bioleg y Môr a D r Croyw

Diddordeb?

Ffoniwch Helen Marshall ar
01970 628445 neu Epost: hem@aber.ac.uk



IBERS Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig

Peirianeg i amddiffyn yr arfordir a chynyddu bioamrywiaeth

Yn ystod haf 2019, bu tîm o fyfyrwyr BSc Bioleg y Môr a Dŵr Croyw a BSc Swoleg yn helpu i gynnal arbrawf mawr oedd yn rhan o'r prosiect Ecostructure. Mae Ecostructure yn brosiect €3.5 miliwn sy'n ymchwilio i ffyrdd o wneud lle i natur mewn peirianeg forol. Ar gyfer yr arbrawf hwn, crëwyd teils wedi'u seilio ar dirwedd glannau creigiog naturiol drwy ddefnyddio ffotogrametreg, argraffu 3D, a choncrit sy'n fwy ecogyfeillgar, ac yna aeth ein tîm o fyfyrwyr ati i glymu'r teils wrth amddiffynfeydd yr arfordir ger y Borth. Buont yn ffodus o dywydd braf un o wythnosau gorau'r haf, felly yn ogystal ag ymarfer eu sgiliau crefftio roedd yn gyfle i'r tîm ychwanegu at eu lliw haul! Gwnaeth rhai o'r myfyrwyr ymddangos ar Newyddion BBC Wales hefyd. Bydd y teils yn cael eu monitro yn ystod y blynyddoedd nesaf a rhagwelir y bydd y teils hyn, sy'n fwy naturiol, yn cefnogi mwy o amrywiaeth na'r strwythurau arfordirol llai cymhleth sy'n cael eu gosod fel arfer yn ein hardaloedd morol.



Gwirfoddoli ar Brosiect Swricatiaid Kalahari, gan Zoe Turner



Ers imi ennill gradd BSc Swoleg o Aberystwyth, rwyf bellach yn treulio blwyddyn yn gweithio yn Ne Affrica gyda swricatiaid. Rwy'n casglu data am ecoleg ymddygiadol a hanes bywyd grwpiau o swricatiaid, ac mae'r gwaith hwn yn fy ngalluogi i ddefnyddio'r sgiliau a'r wybodaeth a ddysgais yn y brifysgol i gyflawni swyddi gwaith maes a chael cyfleoedd ymchwil ehangach.

Llwyddiant interniaeth myfyriwr

Mae Charleigh (yn y llun) yn un o'r criw gwreiddiol a dderbyniwyd ar ein Cynllun Cadwraeth Bywyd Gwyllt, a gyflwynwyd yn 2018-19.

Gan ei bod hi'n fyfyrwr sy'n dilyn fersiwn blwyddyn mewn diwydiant integredig y radd hon, cyn bo hir mi fydd hi'n dechrau interniaeth am ddeuddeg mis yn Sefydliad Ymchwil Forol Archipelago yng Ngroeg.



Bydd Charleigh yn gweithio ar amrywiol agweddau ar ymchwil mamaliaid morol, yn cynnwys mapio ac adnabod, tirio, adfer cwrelau, a gwaith labordy ar effaith microblastigion.

Adroddiad ar Gwrs Maes Ymddygiad Anifeiliaid

Aeth Cwrs Maes Ymddygiad Anifeiliaid 2019 i Slapton Ley am y tro cyntaf, ac fe wnaeth y myfyrwyr fwynhau'n fawr yn y warchodfa natur 490 erw sy'n eiddo i, ac yn cael ei rhedeg gan Ymddiriedolaeth Cadwraeth Bywyd Gwylt Whitley (sydd hefyd yn rhedeg Sŵ Paignton). Roedd y lleoliad newydd yn ddelfrydol ar gyfer astudio ymddygiad nifer o rywogaethau, yn cynnwys ystumod, gwenyn, ceiliogod rhedyn, crethyll, brain, hwyaid, a malwod dŵr croyw. Slapton Ley yw un o'r mannau olaf mae adar sy'n ymfudo yn aros cyn hedfan i Affrica ar gyfer y gaeaf, ac yn ystod taith mis Medi gwelwyd llawer iawn o adar yn aros yno i fagu braster er mwyn cwblhau'r daith. Eglurwyd hyn oll i ni yn gynnar un bore heulog gan grŵp modrwyo adar Slapton. Mae'r ardal hon hefyd yn gartref i un o'r poblogaethau pathewod mwyaf, a ddarganfuwyd drwy ddamwain oherwydd storm fis Ionawr yn 2001 (darllenwch fwy amdano yma <https://ptes.org/wp-content/uploads/2014/09/2010-Spring-Dormouse-Monitor.pdf>), a gwelodd y grŵp rai nythod pathewod gwych yn ystod sesiwn arddangos gan Grŵp Mamaliaid Dyfnaint. Gyda'r nos y noson honno, cafwyd sgwrs ar ymddygiad fflamingos gan arbenigwr byd-eang sy'n byw yn yr ardal. Y flwyddyn nesaf, bydd y taith maes yn troi am y dwyrain i ymchwilio i flora, ffawna ac ymddygiad anifeiliaid ac adar yn Suffolk.



Cyn-fyfyriwr o Aber yn arweinydd maes Prosiect Mwncïod Kakamega

Ar ôl ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Gwyddor Anifeiliaid o Brifysgol Aberystwyth, a'r holl wybodaeth a phrofiad ddaw gyda hynny, am y flwyddyn ddiwethaf bu Koro Vogt yn arweinydd maes Prosiect Mwncïod Kakamega yn Kenya. Bu'n rheoli tîm o 6 ymchwilydd yn astudio ymddygiad cymdeithasol mwncïod glas sy'n byw yn rhydd yn ardal fwyaf dwyreiniol coedwig law Gini a'r Congo, sef coedwig Kakamega. Ambell ddiwrnod, byddaf yn treulio 8 awr a mwy yn yr haul yn gwyllo mwncïod y gallaf eu henwi bob un (rwy'n eu hadnabod yn well na ffrindiau a theulu ar hyn o bryd) yn bwydo, cysgu, magu perthynas, chwarae ac ymladd (does dim byd tebyg i geisio dilyn y mwncïod yn ystod brwydrau go-iawn rhwng grwpiau astudio!), ond ar ddiwrnodau eraill mae pob coesyn yn y goedwig yn fy maglu, rwy'n brwydro yn erbyn y pryfed sy'n sythblymio i fy llygaid, ac yn gwneud fy ngorau i beidio â syrthio i'r tyllau sy'n ymddangos ar hap yn llawr y goedwig. A yw'n werth y cyfan? Ydy wir. A'r profiad maes arbennig hwn i'w henw, cyn bo hir iawn, mi fydd yn dechrau ei gradd Meistr mewn bioamrywiaeth ac ecosystemau trofannol fel rhan o raglen Tropimundo Erasmus mundus, gan ganolbwyntio ar fioleg a chadwraeth bywyd gwylt.



Darlith wadd gan yr entomolegydd a'r cyflwynydd teledu Dr Ross Piper

Mwynhaodd staff a myfyrwyr sgwrs afaelgar arall gan y swolegydd, yr awdur, a'r cyflwynydd teledu, Dr Ross Piper. Mae gwaith Ross yn cynnwys y gyfres ddogfen boblogaidd ar fywyd gwylt ar BBC2, "Wild Burma", a'i lyfr trawiadol Animal Earth, ac mae'n ymweld ag Aberystwyth yn rheolaidd i draddodi darlithoedd a seminarau. Mae cysylltiad Ross ag Aberystwyth yn ymestyn yn ôl i 2013 pan ddaeth atom i gyfrannu at y modiwl Swoleg Infertebratau ac mae ef bellach yn aelod pwysig o'r tîm dysgu sy'n teithio gyda'r myfyrwyr ar ein cwrs maes Swoleg Trofannol yn Amazon Periw, neu Costa Rica. Mae gan Ross wybodaeth anghyffredin am hanes naturiol, ond mae'n arbenigo mewn entomoleg – astudio pryfed – ac wedi helpu llawer o fyfyrwyr Swoleg Aberystwyth â'u prosiectau yn gweithio gyda'r grŵp anifeiliaid amrywiol a diddorol hwn, o gasgliadau pili-palod, ecoleg copyn naid, ymddygiad morgrug deildorrol, i fioleg chwilod y dom! Yn y lluniau, gwelir Ross yn dangos i israddedigion Aberystwyth sut i leoli maglau pryfed yng nghanopi'r goedwig law (Amazon Periw).



Ail Ddyn Roced Aberystwyth

Byddem, fel arfer yn cysylltu'r 'Dyn Roced' â chân Elton John a'r ffilm ddiweddar y gwnaeth Taron Egerton (brodor o Aberystwyth) ymddangos ynddi. Ond, mae gan IBERS ac Aberystwyth ail Ddyn Roced. Daw Gianmarco Santfrantello yn wreiddiol o Palermo, Sisili, ac mae'n cwblhau doethuriaeth ar fath gwahanol o roced, sef berwr y gerddi (*Eruca sativa*), a elwir weithiau'n roced yr ardd' neu 'roced'. Mae'n perthyn i deulu'r bresych ac fe'i gwelir yn aml yng nghanol saladau deiliog eraill.



Mae hanes hir i'r planhigyn hwn, sy'n dod o ardal Môr y Canoldir, ac sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod Helenaidd (320 CC). Mae'n cael ei ddewis a'i amlhau oherwydd ei flas a, bellach mae'n cael ei fwynhau fel salad deiliog ym mhedwar ban byd. Mae Gianmarco yn astudio ffyrdd newydd o dyfu'r planhigion hyn trwy ddefnyddio systemau cynhyrchu fflach, mewnol, carbon isel. Meddai Gianmarco, "Mae berwr y gerddi yn salad gwych, mae blas cryf arno ac mae'n cynnwys llawer iawn o wrthocsidyddion. Cyn dod i Aberystwyth, ni feddyliais y byddai'n bosibl cynhyrchu cnydau Môr y Canoldir o ansawdd uchel yn gynaliadwy yng Nghymru".



Gallwch ein dilyn ymlaen Twitter @IBERSbio